

## GRIFFITHS, DAVID ROBERT (1915-1990), gweinidog ac ysgolhaig Beiblaidd

**Enw:** David Robert Griffiths

**Dyddiad geni:** 1915

**Dyddiad marw:** 1990

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog ac ysgolhaig Beiblaidd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** D. Hugh Matthews

Ganed D. R. Griffiths ym Mrynhyfryd, Pentre, Y Rhondda yn 1915. Yr oedd yn fab i'r Parchg Robert Griffiths, gweinidog y Bedyddwyr ym Moreia, Pentre, a Mrs Mimah Griffiths, merch David Davies, Maes Twynog, Llanwrda. Roedd ganddynt bump o blant tra thalentog: Elizabeth Jane, Augusta, **John Gwyn** (sef yr **Athro J. Gwyn Griffiths**, Prifysgol Abertawe), David Robert a Gwilym. Addysgwyd D. R. Griffiths, fel ei frodyr a'i chwiorydd, mewn ysgolion yn Pentre, cyn iddo gael ei dderbyn yng Ngholeg Regent's Park a oedd yn y broses o symud o Lundain i Rydychen. Oherwydd hyn, bu'n astudio'n rhannol ym Mhrifysgol Llundain - gan gysylltu hefyd â New College, Llundain (Coleg yr Annibynwyr) - lle'r enillodd radd B.D. yn 1937. Rhwng 1937 a 1939 bu'n fyfyrwr yng Ngholeg Regent's Park a Choleg Mansfield, Rhydychen, lle y graddiodd eto mewn diwinyddiaeth, gan dderbyn hefyd radd M.Th. Prifysgol Llundain yn 1943. Erbyn hynny, yr oedd yn weinidog Eglwys y Bedyddwyr, Caerllion-ar-Wysg. Fe'i hordeiniwyd yno yn 1940. Tra oedd yn y coleg, enillodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caerdydd, 1938, am gyfieithiad o Bedwerydd Eclôg Meseanaidd Fyrail. Ymddangosodd y cyfieithiad yn y gyfrol *Cerddi o'r Lladin* a gyhoeddodd Gwasg Prifysgol Cymru dan olygyddiaeth **J. Gwyn Griffiths** yn 1962.

Yn 1944 priododd â Gladys Owen, a anwyd ym Mhontllan-fraith, sir Fynwy, merch i John Owen, Prifathro Coleg Caerllion-ar-Wysg. Ganed iddynt un ferch, Petra. Roedd Gladys Griffiths wedi graddio mewn Ffrangeg yng Ngholeg Somerville, Rhydychen, ac yn athrawes Ffrangeg yng Nghasnewydd adeg ei phriodas. Ar hyd ei hoes, gyda chefnogaeth ei gwr, llafuriodd yn ddiflino dros gyfiawnder a lles cymdeithas. Gohebai'n gyson â'r Athro Dennis Brutus, y bardd a'r llenor o Dde Affrica a garcharwyd yn 1963 am ddeunaw mis ar Ynys Robben, yr un carchar â Nelson Mandela. Wedi iddo gael ei ryddhau, yng nghartref D. R. a Gladys Griffiths yr arhosai Dennis Brutus ar ei ymweliadau â Chymru.

Symudodd y teulu o Gaerllion-ar-Wysg yn 1946 pryd apwyntiwyd D. R. Griffiths yn ddarlithydd mewn Astudiaethau Crefydd ac yn gaplan yn y Coleg Hyfforddi Brys a sefydlwyd yn Leavesden i hyfforddi athrawon ar ôl Rhyfel Byd II. Ymhen blwyddyn, symudodd y teulu eto, y tro hwn i Benarth, gan fod y gwr wedi ei benodi'n Athro'r Testament Newydd yng Ngholeg y Bedyddwyr Caerdydd, yn olwynyd i'w ewythr, y Parchg John Griffiths. Wedi saith mlynedd yn darlithio yng Ngholeg y Bedyddwyr, symudodd D. R. Griffiths yn 1955 i fod yn ddarlithydd yn y Testament Newydd yn Adran Astudiaethau Crefyddol Prifysgol Caerdydd, ac yno yr arhosodd tan ei ymdeoliad yn 1979.

Yn ystod ei gyfnod yng Nghaerdydd bu D. R. Griffiths aelod o Banel Cyfieithwyr y Beibl Cymraeg Newydd yn trosi'r Testament Newydd a'r Apocryffa, a hefyd o Banel y Gorllewin o gyfieithwyr y *Diolott Bible*. Hwn oedd y gwaith a gyhoeddodd Cymdeithas y Beibl (y British and Foreign Bible Society) a'i ddosbarthu'n breifat yn rhannau i gyfieithwyr yr ysgrifurau i ieithoedd lleol. Bu'n gyd-olygydd y cylchgrawn *Diwinyddiaeth* rhwng 1954 a 1968. Traddododd ddarlith Pantyfedwen o dan nawdd Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James, Pantyfedwen, darlith a gyhoeddwyd yn 1970 gan Wasg John Penri yn gyfrol dan y teitl *The New Testament and the Roman State*.

Yn ifanc, yr oedd D. R. Griffiths wedi ymddiddori mewn barddoniaeth. Perthynai i Gylch Cadwgan - cylch o feirdd a llenorion ifanc blaengar yn y Rhondda. Yn 1953 cyhoeddwyd cyfrol o'u cerddi yn dwyn y teitl *Cerddi Cadwgan*. Mae gan D. R. Griffiths bedair ar bymtheg o gerddi yn y gyfrol sy'n cynnwys hefyd waith ei frawd, **J. Gwyn Griffiths**, ynghyd â cherddi gan **Pennar Davies**, Gareth Alban Davies a Rhydwen Williams. Cerddi dychan a pharodiau yw'r rhan fwyaf o'r cerddi sydd gan D. R. Griffiths yn *Cerddi Cadwgan*, ond y mae'r gyfrol o farddoniaeth a gyhoeddodd ef ei hun, *Defosiwn a Direidi* (1986), wedi ei rhannu'n dair rhan: Cerddi, Emynau (rhai'n gyfieithiadau) a Phytiau Byrion Ysgafn (lle'r ailgyhoeddir rhai allan o'r gyfrol *Cerddi Cadwgan*). Cyhoeddwyd dau emyn ganddo ('O Grist, Ffisigwr mawr y byd ...' ac 'O! Roddwr pob ysbrydol ddawn ...') yn llyfr emynau'r Bedyddwyr, *Y Llawlyfr Moliant Newydd* (1956) ac y mae *Caneuon Ffydd* (2001) yn cynnwys un emyn gwreiddiol a dau gyfieithiad ganddo.

Yn ei flynyddoedd olaf, roedd yn well ganddo gael ei adnabod fel D. R. Griffith, er mwyn gwahaniaethu rhyngddo a **D. R. Griffiths**, 'Amanwy'. Bu farw, 16 Mai 1990. Claddwyd ef ym Mhenarth wedi'r gwasanaeth angladd yn y Tabernacl, Caerdydd.

### Awdur

**D. Hugh Matthews**, (1936 - 2020)

### Ffynonellau

*Cofnodion Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd*

Robin Gwyndaf (gol.), *Defosiwn a Direidi - Casgliad o Gerddi ac Emynau* (1986), tt. 14-24

*Y Faner* 15 Mehefin, 5 Hydref 1990

*Y Tyst* 12 Gorffennaf 1990, 6 Hydref 1990

Ceir darlun du a gwyn ohono yn *Defosiwn a Direidi - Casgliad o Gerddi ac Emynau* (1986)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804679

**Dyddiad cyhoeddi:** 2009-08-20

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Matthews, D. H., (2009). GRIFFITHS, DAVID ROBERT (1915-1990), gweinidog ac ysgolhaig Beiblaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c6-GRIF-ROB-1915>

Prifwrd

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Modeld gan:  
Llywodraeth Cymru  
Developed by:  
Welsh Government